



# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Mae'r fersiwn digidol hwn o'r erthygl/cylchgrawn wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

NODER y gall cyfyngiadau hawlfraint ac amodau trwydded fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **Mwy o Wybodaeth** wrth ddarllen y cylchgrawn ar wefan [Cylchgronau Cymru](http://cylchgronau.library.wales) ([cylchgronau.library.wales](http://cylchgronau.library.wales)).

Efallai y bydd hefyd gennych ddi-ddordeb yn [Papurau Newydd Cymru](http://papurau.newydd.library.wales) ([papurau.newydd.library.wales](http://papurau.newydd.library.wales)), chwaer-wefan gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhoi mynediad i dros 1.1 milwn o dudalennau o dros 130 o bapurau newydd a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1919.

This digital version of the article/journal has been created by The National Library of Wales.

PLEASE NOTE that copyright restrictions and license terms may apply. For more information, view **More Information** when reading the journal on the [Welsh Journals](http://journals.library.wales) ([journals.library.wales](http://journals.library.wales)) website.

You may also be interested in [Welsh Newspapers](http://newspapers.library.wales) ([newspapers.library.wales](http://newspapers.library.wales)), a sister-site from the National Library of Wales that gives access to over 1.1 million pages from over 130 newspapers published between 1805 and 1919.



## *Ieuan Gethin, Owain Glyndŵr a Stori Iolo Morganwg\**

---

Nid oedd gan yr awdur, Thomas Roberts, Llwynrhudol, a oedd yn gyfoeswr i Iolo Morganwg, fawr o olwg ar gyfreithwyr ei oes. Yn ei lyfryn dychanol a dadleuol, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder*, a gyhoeddwyd ddwy ganrif union yn ôl i eleni, dywed mai 'twyllwyr a gorthrymwyr' oeddynt oll.<sup>1</sup> Ni wn i ddim beth am weddill y siaradwyr yn y gynhadledd undydd hon, ond yr wyf yn teimlo fel petawn i'n rhyw gyw cyfreithiwr yma heddiw yn cyflwyno tystiolaeth fel rhan o achos yr amddiffyniad o blaid Iolo, oherwydd y mae wedi'i gyhuddo ar hyd y blynyddoedd o fod yn ffugiwr diarbed ac yn dwyllwr diegwyddor. Cawsom ein rhybuddio droeon gan ysgolheigion cyfrifol oddi ar ddyddiau John Morris-Jones fod angen pinsiad go hael o halen cyn llyncu dim ar a ddywed y saer maen o Drefflemin. Profiad cyfarwydd i amryw fu cael eu camarwain ganddo, yn enwedig gan ei ddawn ddiamheuol fel bardd. Tystiai R. T. Jenkins, er enghraifft, iddo ddarllen a mwynhau aml i gywydd y credai ei fod yn waith dilys Dafydd ap Gwilym heb wybod ar y pryd (yng ngeiriau R. T. Jenkins ei hun) mai o'r 'ffatri tua'r Bont-faen' y daethai.<sup>2</sup> Rhyw hen deimlad digon annifyr bob amser yw gwybod ichi gael eich twyllo. Ac wrth drafod ffynonellau'r hanesion a'r traddodiadau ynghylch bywyd y seintiau yng Nghymru, mae Elissa Henken yn rhagymadrodd ei llyfr, *Traditions of the Welsh Saints*, yn ein rhybuddio rhag peryglon gorddibynnu ar dystiolaeth rhai ffynonellau'n fwy na'i gilydd am eu bod yn dra chyfeiliornus: 'This can be particularly dangerous for the researcher if the *Iolo MSS.* are amongst the sources.'<sup>3</sup>

Hanesyn yn yr union ffynhonnell honno, sef yr *Iolo Manuscripts*,

\* Papur a draddodwyd mewn cynhadledd undydd ar y thema 'Iolo Morganwg: Dilysrwydd y Ffugiwr' yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 20 Mehefin 1998.

cyfrol a olygwyd gan Taliesin ab Iolo, ac a gyhoeddwyd yn 1848, ddwy flynedd ar hugain ar ôl marw Iolo, yr wyf am ei drafod gyda chwi y bore 'ma.

Mae dwy ystyriaeth i'w cadw mewn cof wrth drafod ffugiadau Iolo Morganwg yn yr *Iolo Manuscripts* yn fy marn i, sef yn gyntaf, natur y deunydd yr oedd Iolo'n ei gasglu ac yn gweithio arno – ac yr oedd y deunydd hwnnw'n amrywiol iawn, yn tynnu ar ffynonellau llafar, llawysgrifol a phrintiedig gan adlewyrchu diddordebau amlweddog Iolo ei hun. Ac yn ail – ystyriaeth sy'n fwy perthnasol i drafodaethau'r gynhadledd hon, o bosibl – y defnydd a wnâi Iolo o'r deunydd dan ei ddwylo. Yn yr hyn yr oedd yn ei wneud â'r pethau a glywodd ac a welodd y mae'n diddordeb ni, a rhan o'n gwaith wrth gloriannu pa mor ddiogel a dibynadwy yw Iolo fel tywysydd yw penderfynu lle'n union y mae'r llinell derfyn rhwng yr hyn sy'n ffeithiol gywir a'r hyn sy'n ffug, a pha bryd y mae Iolo'n dechrau crwydro oddi ar y trywydd ac yn mynd â ni ar daith ar hyd llwybrau gwyrddro ei ddychymyg bywiog ei hun?

Cynhwysa'r *Iolo Manuscripts*, ymhlith pethau eraill, nifer o fân hanesion neu 'fân gofion' a thraddodiadau am amryw o gymeriadau hanesyddol a oedd ym marn Iolo'n dal rhyw gysylltiad â Morgannwg, yn eu mysg Cunedda Wledig, Taliesin Ben Beirdd ac Urien Rheged. Mae yn y gyfrol hefyd adran sy'n cynnwys nifer o bytiau amrywiol ynghylch rhai o ffigurau'r traddodiad barddol ym Morgannwg, ac ymhlith y rheini ceir yr hanesyn canlynol am Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision, y bardd-uchelwr o Faglan yng nghwmwd Afan a oedd yn un o'r cynharaf o gywyddwyr y dalaith:

Ieuan Gethin ab Ieuan, ab Lleision ab Rhys ab Morgan Fychan, ap Morgan Arglwydd, ap Caradoc, ap Iestin, ap Gwrgan Tywysawg Morganwg a Gwent a Gwyr. –

Ieuan ap Ieuan Lleision a fu gydag Owain Glyndyfrdwy yn torri Cestyll y Twyllbendefigion ym Morgannwg, a phan aeth y dydd yn erbyn Owain a gorfod arno fyned dan gel a Chudd. gorfu hefyd ar Ieuan ap Lleision fyned yn wr cel a chudd hyd Fôn at hen gyfaill câd iddaw, ar holl amser y bu ef yno ydd oedd y Brenin Harri'r Bummed yn lladd ag yn gormesu pob un a fernid yn gymhlaid ag Owain, ond ymhen tro cyttunwyd rhwng y Cymry ar Brenin ymiawnhâu er arian au Gwerth yn wartheg a defaid a daoedd eraill. Yna ydd ymiawnhawyd dros Ieuan ap Lleision sef Cant o bennau Gwartheg a deucant o ddyfaid, wedi hynny efe a ddaeth adref, ag ymhen amser wedi hynny fe fynodd y Brenin ladd llawer o'r Cymry am nas gallent dalu'r iawn nag yn arian nag yn werth. achaws eu tylodi, a hynn yn dyfod i glyw Ieuan ap Lleision efe a ddywad y ddiarhebgoel hon, sef.

Tri pheth nid ebrwydd au gwelir, yn sych; Mawn Môn, Gwaelod Llyn Tegid, a dwylaw Gwaedlyd Hên Harri Cân, sef Harri Cân y Galwai'r Cymry Harri Frenin y pummed. a myned a wnaeth y goel honn ar gof a llafar Gwlad ag y mae hyd heddyw. – (Llyfr Mr. Bassett, o Lann y Lai.)<sup>4</sup>

Wrth ddarllen y darnau tebyg i hwn sydd yn yr *Iolo Manuscripts*, fe welir yn eglur ddigon fod Iolo nid yn unig yn fardd galluog ond yn rhyddieithwr medrus hefyd.

Mae'n ymddangos i'r Canon Robert Williams dderbyn yr hanesyn hwn yn ei grynsyth heb amau dim arno mewn ysgrif fywgraffyddol ar Ieuan Gethin yn *Enwogion Cymru* (1852). Felly hefyd D. Rhys Phillips yn ei lyfr ar hanes Cwm Nedd, *The History of the Vale of Neath* (1925). Ond Griffith John Williams oedd y cyntaf i fwrw amheuaeth ar y stori fach hon. Dyfarnodd yn ddiamwys yn *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* mai cynnyrch dychymyg Iolo ydoedd:

Diamau mai Iolo ei hun a luniodd yr hanes hwn . . . ni welais ddim i gadarnhau'r stori hon nac yn yr hanesion am wrthryfel Owain, nac yng nghywyddau Ieuan Gethin, nac yn y rhai a ganwyd iddo.<sup>5</sup>

A'r farn hon fu'r farn derfynol ar yr anecdot hwn hyd at yn ddiweddar iawn. Nid yw'n rhyfedd yn y byd i Griffith John Williams amau geirwiredd y stori, oherwydd onid yw hi'n nodweddiadol Ioloaidd? Dyma inni stori ddeniadol a chyffrous am un o gywyddwyr Morgannwg yn ymladd ym mhlaid Owain Glyndŵr, yn byw ar herw ym Môn, ac yn y diwedd yn gorfod cymodi â'r Brenin Harri V – yr hen gena' cas ag ydoedd – cyn cyfansoddi triawd newydd chwerw-finiog am greulonder y brenin yn dial ar y Cymry.

Byddai'n hawdd deall sut y buasai Iolo wedi ffugio'r hanesyn hwn. 'Roedd yn gyfarwydd â gwaith Ieuan Gethin yn y llawysgrifau, yn enwedig ei gywyddau i Owain Tudur o Benmynydd. Y cywydd cynharaf o'r eiddo Ieuan Gethin sydd ar glawr y medrwn ei ddyddio i sicrwydd yw hwnnw a ganodd i Owain Tudur pan garcharwyd ef yn Niwgad yn 1437.<sup>6</sup> Canodd gywydd marwnad brudiol ei naws i'r un gwrthrych yn 1461 pan ddiennyddiwyd ef yn Henffordd ar ôl Brwydr Croes Mortimer. Yn y farwnad honno, edrychai Ieuan Gethin ar Owain Tudur fel y mab darogan, a galarai fod y tri Owain, sef Owain Lawgoch, Owain Glyndŵr ac Owain Tudur, wedi marw. Ond nid anobeithiai'n llwyr, oherwydd proffwydai fod dydd Siasbar a Harri ar y gorwel, ac yr oedd yr hen gywyddwr yn disgwyl pethau gwych i ddyfod: 'Mae gobaith i'n hiaith yn ôl, / A byw aeth yn obeithiol . . . / Gwyllo Siasbar a Harri, / ei wŷr a'i fab yr wyf i.'<sup>7</sup> Barnai Griffith John Williams, a hynny'n gwbl ddealladwy, mai gwybod am y cywyddau hyn a ysgogodd Iolo i lunio'r stori am y bardd. 'Roedd ganddo gyfle yn y fan

hon i fawrygu gyrfa un o gywyddwyr Morgannwg fel milwr ac i gadarnhau'r dybiaeth fod cefnogaeth gref i wrthryfel Glyndŵr yn y dalaith.

Ond wrth chwilota drwy'r *Calendar of Patent Rolls* ar drywydd arall, fe ddigwyddais daro'n ddamweiniol ar enw Ieuan Gethin ym mynegai'r gyfrol a gynhwysai bapurau'r llys brenhinol yn ystod chwe blynedd olaf teyrnasiad Harri IV, sef rhwng 1408 a 1413. Y mae cofnod yn y gyfrol honno sy'n datgan yn groyw fod pardwn wedi'i estyn i Ieuan Gethin a'i wraig, Elisabeth, ar 26 Gorffennaf 1410. Dyma sut y mae'r cofnod yn darllen:

Pardon to Ievan Gethyn ap Jevan ap Leyson of South Wales and Elizabeth his wife for all treasons, insurrections, rebellions, felonies, extortions, oppressions, misprisions, trespasses and offences committed by them. By K. on the information of Henry, prince of Wales.<sup>8</sup>

Dyma, felly, ddarganfyddiad arwyddocaol iawn sy'n profi fod cnewyllyn yr hanesyn a gawn gan Iolo'n ffeithiol gywir. Yr oedd Ieuan Gethin yn ddigon hen i ymladd ym mhlaid Owain, ac fe dderbyniodd bardwn am ei droseddau. Wrth fynd heibio, hoffwn gyfeirio'n fyr at Elisabeth, gwraig y bardd, sydd hefyd yn cael ei henwi yn y pardwn. Wyres ydoedd hi i Ifor Hael o Wern-y-clepa, merch Tomas ab Ifor Hael. Mae gwybod i un o ddisgynyddion Ifor Hael dderbyn pardwn am gefnogi gwrthryfel Glyndŵr yn dwyn i gof y cyfeiriadau gwrth-Seisnig sydd yng nghanu Dafydd ap Gwilym i Ifor, oherwydd yr oedd traddodiad o wrthwynebu'r goresgynwyr estron yn y teulu hwn. Morgan ap Maredudd, taid Ifor Hael ar ochr ei fam, oedd arweinydd gwrthryfel Madog ap Llywelyn ym Morgannwg yn 1294. Awgrymodd Griffith John Williams fod Iolo'n gwybod mai wyres i Ifor Hael oedd Elisabeth, ac mai dyna paham yr honnodd mai yn neuadd Ieuan ap Lleision, tad Ieuan Gethin, y bu Dafydd ap Gwilym – bardd Ifor – yn ymryson â Rhys Meigen.<sup>9</sup> Crybwyllir yr hanes hwnnw yn yr *Iolo Manuscripts*, ond ceir fersiwn llawnach ohono yn un o lawysgrifau Llanover yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn y fan honno, priodolodd Iolo englyn i Ddafydd ap Gwilym, ac yna'n ei ddilyn y mae'r nodyn canlynol:

D.G. ai cant yn Eisteddfod Llanfaglan yn Nhy Ieuan ap Lleison. lle ydd ennilles ef gadair a'i cholli a wnaeth Rys Meigen, ag achos hynny gwneuthur yr englynion yma i Ddafydd ap Gwilym . . .<sup>10</sup>

Yr hyn a geir wedyn yw dau englyn arall, y naill wedi'i briodoli i Rys Meigen mewn sawl llawysgrif o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen, a'r llall wedi'i dadogi ar y bardd gan Iolo ei hun. Afraid dweud mai stori wneud yw hon, ond fe gawn gip yn ei sgîl ar y ffordd yr oedd

dychymyg Iolo'n gweithio wrth iddo gydio mewn dwy ffaith a'u hasio at ei gilydd i greu stori ddigon deniadol ond ffug. Mae'n ddiddorol sylwi nad oedd Iolo'n gwbl gyson ag ef ei hun wrth adrodd am ymryson Dafydd ap Gwilym a Rhys Meigen, oherwydd mewn llawysgrif arall yng nghasgliad Llanover ceir fersiwn gwahanol o hanes yr ymryson, a'r tro hwn fe'i lleolir yn llys Ifor Hael!<sup>11</sup>

Fe'n gorfodwyd ni bellach i ailystyried dyddiadau Ieuan Gethin, oherwydd arferid credu mai tua dechrau'r bymthegfed ganrif y cafodd ei eni, ac y buasai wedi bod yn llawer rhy ifanc i ymladd ym myddin Glyndŵr. Yr wyf wedi cynnig mewn erthygl yn *Llên Cymru* iddo gael ei eni tua 1390.<sup>12</sup> Cadwyd cywydd marwnad i Ieuan Gethin gan Iorwerth Fynglwyd y barnai Griffith John Williams iddo gael ei ganu rhwng 1470 a 1480. 'Roedd Eurys Rowlands, golygydd gwaith Iorwerth Fynglwyd, yn ei chael hi'n anodd credu fod y farwnad wedi'i chanu mor gynnar â 1480, a thueddai i gredu iddi gael ei chanu ddeng mlynedd yn ddiweddarach, sef yn 1490.

Fe welwch ar eich union fod ychydig o broblem â dyddiadau'r bardd os ganwyd ef tua 1390, yn ôl fy nhybiaeth i, ac os bu farw tua 1490, yn ôl tybiaeth Eurys Rowlands. Yn awr, awgrymaf na fyddai Iolo Morganwg yn cael gronyn o anhawster derbyn fod Ieuan Gethin wedi byw am gan mlynedd, gan ei fod ef yn mynnu fod hirhoedledd trigolion Morgannwg yn ddihareb am eu bod yn byw yn y dalaith iachaf yng Nghymru. 'Roedd tirwedd ac amgylchedd Bro Morgannwg, ynghyd â gwynt y De o'r môr, yn gyfryw ag i sicrhau hir oes ym marn Iolo. Nid oedd yn beth anghyffredin i drigolion y Fro fyw am ganrif a mwy, ac ymhlith y 'canmlwyddiaid' a enwai Iolo yr oedd nifer o feirdd, yn eu plith Gwilym Tew, a fu farw'n 108 oed, Meurig Dafydd yn 110 a Thomas ab Ieuan ap Rhys, y cwndidwr, yn 140!<sup>13</sup>

A bwrw fod Ieuan Gethin wedi marw ryw bryd rhwng y dyddiad cynharaf a roes Griffith John Williams ar gyfer ei farw, sef 1470, a'r dyddiad marw a roes Eurys Rowlands iddo, sef 1490, byddai dros ei bedwar ugain oed yn braf. Gall hynny beri anhawster i rai. Mewn llythyr ataf yn cytuno â'm dadleuon dros ailddyddio Ieuan Gethin, fe ddywed yr Athro Rees Davies fod hirhoedledd rhyfeddol y bardd yn dipyn o broblem. Y cyfan a wnaif yn y fan hon yw cyfeirio at sylw sydd gan Barbara Hanawalt yn ei hastudiaeth bwysig o deuluoedd taegion yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol yn ei llyfr, *The Ties that Bound* (1986). A derbyn, meddai hi, fod hyd einioes y boblogaeth ganoloesol ar gyfartaledd yn dair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd, nid yw hynny'n golygu nad oedd rhai pobl yn byw i oedran teg. Mae hi'n dadlau mai'r ganran uchel o farwolaethau plant yn hytrach na marwolaethau oedolion a olygai nad oedd disgwyliad einioes yn uchel yn y cyfnod.<sup>14</sup> Yn Nhwsgani wledig yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed, er enghraifft, amcangyfrifir fod rhwng chwech a phymtheg y cant o'r

boblogaeth dros eu trigain oed, ac mae'n hawdd credu y byddai amgylchiadau byw uchelwr cymharol gyfforddus ei fyd ym Morgannwg yn y bymthegfed ganrif yn fodd iddo gael oes feithach na'r cyffredin.

Boed a fo am y sgwarnog yna ar hyn o bryd, rhaid troi ein sylw at stori Iolo Morganwg. Un o'i hoff ddulliau o ffugio oedd gwau stori o gwmpas rhyw ddigwyddiad hanesyddol neu ffaith gofnodedig gan ychwanegu rhywfaint o liw a chyffro wrth ei hadrodd. Gadewch inni'n awr roi ein chwyddwydr ar y stori arbennig hon a cheisio datod y pwythau fel petai.

1. Yr ach i ddechrau. Dichon iddo godi honno o ryw lyfr achau a oedd ymysg y lliaws o lawysgrifau y bu'n eu darllen ac yn eu copïo. Nid oes raid inni ei hamau gan ei bod yn gyson ag ach Ieuan Gethin yng ngwaith yr arwyddfeirdd.<sup>15</sup> Y cyfan y gallwn ei ddweud yw fod adrodd yr ach mor awdurdodol hyderus ar ddechrau'r stori yn rhoi'r argraff fod yr hyn sy'n dilyn hefyd yr un mor awdurdodol a dilys.

2. Yna, daw rhan o'r frawddeg gyntaf: 'Ieuan ap Ieuan Lleision a fu gydag Owain Glyndyfrdwy yn torri cestyll y Twyllbendefigion ym Morgannwg . . .' Gallwn ddweud bellach, ar gorn y cofnod am estyn pardwn brenhinol i'r bardd yn 1410, fod cnewyllyn y stori'n wir. Yr oedd Ieuan Gethin yn un o gefnogwyr Owain Glyndŵr. Pa ran yn hollol a fu ganddo yn y rhyfel, nid oes modd dweud.

Gwyddom i sicrwydd i Harri IV ymddiried yn ei fab, y Tywysog Harri, fel arweinydd yr ymgyrch yn erbyn lluoedd Glyndŵr yn 1403, pan benodwyd ef yn is-gapten y fyddin Seisnig yng Nghymru. Erbyn diwedd y flwyddyn honno yr oedd effaith y Gwrthryfel i'w deimlo bron ym mhob cwr o'r wlad. Cymaint oedd cyfyng-gyngor y Saeson a oedd yn amddiffyn castell Caerdydd ym mis Hydref 1403, er enghraifft, fel y darfu iddynt anfon negeseuon i Wlad yr Haf i ymbil am gymorth i godi'r gwarchae ar y castell. Rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 1404 yr oedd y Tywysog Harri a'i luoedd yn Henffordd a Llanllieni yn amddiffyn parthau deheuol y Mers rhag ymosodiadau'r gwrthryfelwyr, ac yn fuan wedyn arweiniodd ei fyddin i Forgannwg er mwyn rhyddhau cestyll Caerdydd a'r Coety. Bu'n rhaid i luoedd y brenin ddychwelyd i gastell y Coety ddechrau Medi y flwyddyn ganlynol i'w ryddhau o grafangau cefnogwyr Glyndŵr. A fu gan Ieuan Gethin ryw ran yn y cydymgyrchu yn erbyn dau o gestyll Morgannwg yn y cyfnod hwn? A oedd, tybed, yn arweinydd ar fintai o wŷr Owain? (Diddorol yw sylwi fod cyfoeswr iddo, bardd arall o'r enw Ieuan ap Rhydderch, yn ei alw'n '[d]arian Morgan[n]wg' ac yn '[d]reisfaedd anwar dewr tros fyddinau'.) Ynteu a fu Ieuan Gethin fel bardd yn gyfrifol am gynhyrfu'r bobl fel rhyw swyddog recriwtio er mwyn denu cefnogaeth i Owain ymysg ei gyd-uchelwyr a thrigolion Morgannwg yn

gyffredinol? Nid ef oedd yr unig fardd y gwyddom iddo gefnogi Owain Glyndŵr, oherwydd bu Iolo Goch, Gruffudd Llwyd a Gwilym ap Sefnyn yn gefnogol i Owain ar wahanol adegau, a gwyddom i dir yr olaf a enwyd gael ei fforffedu i'r goron oherwydd i'r bardd gefnogi'r Gwrthryfel.<sup>16</sup>

Erbyn 1406 a 1407, fodd bynnag, yr oedd y gefnogaeth i achos Owain wedi dechrau gwanhau ym Morgannwg a'r cyffiniau agos. Tybir, er enghraifft, mai ym mis Ebrill 1406 y daeth y Gwrthryfel i ben yng nghwmwd Carnwyllion yn Ystrad Tywi, i'r gorllewin o Faglan. Ac ym mis Mehefin 1407, derbyniodd tenantiaid neu drigolion Morgannwg a ymostyngasai i'r brenin bardwn cyffredinol. Dyma'r cofnod perthnasol:

Pardon to the tenants or residents of the lordships of Glammorgan and Morgannok in South Wales who have come to the king's grace and peace for several fines paid by them to the king's use at the receipt of the Exchequer . . .<sup>17</sup>

Yng ngoleuni'r ffeithiau hanesyddol hyn am hynt y Gwrthryfel ym Morgannwg, mae'n rhesymol tybio mai rhwng tua 1403 a 1406 y bu Ieuan Gethin, yng ngeiriau Iolo, yn 'torri Cestyll y Twyllbendefigion'.

3. Y ffaith nesaf a gofnodir yn y stori yw i'r cywyddwr ffoi i Fôn: 'gorfu hefyd ar Ieuan ap Lleision fyned yn wr cel a chudd hyd Fôn at hen gyfaill câd iddaw . . .' Mae'n ddigon posibl fod gan Ieuan Gethin gysylltiad agos ag aelodau o deulu Penmynydd, o ystyried y cywyddau a ganodd i Owain Tudur, ac yr oedd Rhys, Gwilym a Maredudd ap Tudur yn aelodau blaenllaw o fyddin Glyndŵr. Os ceisiodd loches ym Môn o gwbl, yna mae'n bosibl mai cyn 1406 y bu hynny, oherwydd erbyn mis Tachwedd y flwyddyn honno yr oedd dros ddwy fil o drigolion yr ynys wedi ymostwng i'r brenin ac wedi talu dirwy gymunedol am eu cefnogaeth i'r Gwrthryfel, er bod Rhys, Gwilym a Maredudd ap Tudur yn parhau'n wrthryfelwyr.<sup>18</sup>

Ni fedrwn gredu fy lwc pan ganfûm fod enw Ieuan Gethin yn digwydd yn y rhestr o enwau'r gwŷr a dalodd ddirwy yng nghwmwd Dindaethwy, lle y saif plasty Penmynydd.<sup>19</sup> Ond gan fod enwau dau Ieuan Gethin arall yn digwydd ymhlith yr enwau ar gyfer cymydau Llifon a Menai, pylodd fy ngorfoledd ychydig. Oni bai fod rhyw dystiolaeth ychwanegol yn dod i glawr, ni allwn fyth wybod ai'r bardd oedd un o'r tri Ieuan Gethin a enwir yn y rhestrau. Fe all yn wir mai ôl llaw Iolo'r breuddwydiwr sydd ar y rhan hon o'r stori.

4. Yna, fe adroddir am y modd y bu Harri V yn rheibio ac yn lladd y Cymry, ac am y modd y cymododd Ieuan Gethin â'r brenin drwy dalu iawndal o gant o bennau o wartheg a deucant o bennau o ddefaid cyn dychwelyd i'w fro enedigol. Dylwn dynnu eich sylw at un anghysonder



bach yn y rhan hon o'r stori lle y cyfeirir at Harri V. Yn 1413 yr olynodd y Tywysog Harri ei dad, sef Harri IV. Ond er mai Harri'r IV oedd y brenin, fel y dywedwyd eisoes, bu gan y Tywysog Harri (Harri V yn ddiweddarach) ran ganolog yn ymgyrch y Saeson yng Nghymru.

A thra ydym yn sôn am gymysgu ffeithiau, mae'n werth tynnu sylw hefyd at anghysonder arall yn y fan hon pan gyfeirir at Ieuan ap Lleision, sef tad Ieuan Gethin. Awgrymodd Griffith John Williams fod y cymysgu hwn rhwng enw'r tad a'r mab yn rhoi'r argraff nad oedd Iolo yn sicr o'i ffeithiau. Yn bersonol, credaf y gallai hwn fod yn wall copïo digon diniwed. Ym mrawddeg gyntaf y paragraff yn y copi gwreiddiol sydd yn llaw Iolo, Ieuan ap Lleision a ysgrifennwyd i ddechrau, ond ychwanegwyd enw Ieuan ab Ieuan Lleision yn ddiweddarach mewn inc tywyll fel petai Iolo'n ei gywiro'i hun.<sup>20</sup>

5. Down nesaf at y 'ddiarhebgoel', chwedl Iolo, sy'n cloi'r stori hon. Credaf ei bod yn ddiogel awgrymu mai creadigaeth Iolo yw'r triawd. Ni fyddem yn synnu o gwbl mai ef a'i creodd mewn gwirionedd, a ninnau'n gwybod fod ganddo ddiddordeb mawr yn llên ddiaarbhol y Cymry, a dawn i greu gwirebau a thrioedd wrth y llath. Ceir ganddo'n llythrennol gannoedd o drioedd ffug tebyg i'r triawd hwn yn nhrydedd gyfrol y *Myvyrian Archaiology*.<sup>21</sup> 'Rwy'n rhyw amau mai taflu llwch i'n llygaid y mae wrth honni fod y 'ddiarhebgoel' ar gof a llafar gwlad yn ei ddyddiau ef.

6. Wrth odre'r hanesyn, rhwng cromfachau, noda Iolo ei ffynhonnell. Un o nodweddion cyfarwydd y ffugiadau Ioloaidd yw priodoli'r deunydd i ryw ffynhonnell arall mewn ymgais i gadarnhau ei ddilysrwydd.

Nid af ar fy llw fod pob manylyn yn y stori hon yn wir, ond o gymryd y fwyell a thocio'r canghennau fe allwn gyrraedd at y bonyn, sef y rhan honno o'r stori a oedd yn seiliedig ar ffaith wirioneddol. Ymhle y cafodd Iolo afael ar yr hanesyn hwn tybed? Ai taro a wnaeth ar gofnod mewn llawysgrif, ynteu a oedd rhyw hanes am ymwneud y bardd â'r Gwrthryfel ar gof a llafar gwlad? Byddai'n hawdd gennym gredu hynny, oherwydd mae'n dra thebygol y byddai straeon am ymgyrch Owain Glyndŵr, ac am rai o'r bobl a wasanaethodd yn ei fyddin, yn cael eu traddodi o genhedlaeth i genhedlaeth. Priodol yw nodi yn y fan hon fod yn yr *Iolo Manuscripts* hefyd hanesion eraill am hynt y Gwrthryfel ym Morgannwg, sy'n arwydd efallai o'r bri a roid ar Owain Glyndŵr yn nyddiau Iolo, dair canrif a hanner yn ddiweddarach.<sup>22</sup> Adroddir hanes Owain yn dryllio cestyll yn y Fro, yn llosgi eglwysi a phentrefi ac yn lladrata eiddo'r gwŷr cyfoethog er mwyn ei roi i'r tlawd, hanesyn y nodir Llyfr Thomas Bassett o Lan-y-lai

unwaith eto fel ei ffynhonnell. Yn ychwanegol at hynny, cofnodir hanes Cadwgan y Fwyall, a oedd yn ôl Iolo yn un gapteiniaid Owain ar wŷr Glyn Rhondda, a stori am Owain Glyndŵr yn twyllo Syr Lawrens Berclos (Lawrence Berkerolles) o dan ei drwyn.<sup>23</sup>

Mae'n ddigon posibl fod hanesion tebyg i'r rhain yn dal i gael eu hadrodd ar lafar yng nghyfnod Iolo ei hun, ac fel yn achos pob tystiolaeth lafar, mae'n anodd drybeilig gwybod beth sy'n seiliedig ar ffaith a beth sy'n seiliedig ar fyth, gan fod traddodiadau llafar fel rheol yn casglu o gwmpas digwyddiad hanesyddol fel cen yn tyfu ar garreg. Os ar lafar gwlad y clywodd Iolo am ymwneud Ieuan Gethin â'r Gwrthryfel yn y lle cyntaf, nid oes wybod i ba raddau yr oedd yr hanesyn wedi'i ystumio cyn iddo erioed ddod i'w glyw. Rhaid peidio ag anghofio y byddai Iolo'n arfer ymgyfathrachu â nifer o wŷr diwylliedig a oedd yn hyddysg yn hanes a thraddodiadau Morgannwg, pobl fel Lewis Hopkin o Landyfodwg a Siôn Bradford o Bandy'r Betws, a phwy a wŷr nad ar dafoddeferydd y gwŷr hyn a'u tebyg y trosglwyddwyd y cof am gysylltiad Ieuan Gethin o Faglan â'r Gwrthryfel.

Mae'n rhyfeddol pa mor wydn y gall traddodiadau llafar fod mewn gwirionedd. Honnai Syr John Wynn o Wedir, er enghraifft, yn ei groncl o hanes ei deulu, fod pobl yn ei ddyddiau ef yn dal i sôn am Syr Hywel y Fwyall o Eifionydd, a gafodd yrfa lwyddiannus fel milwr yn y rhyfel yn erbyn Ffrainc yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ac a wobrwyyd gan y Tywysog Du â chwnstabiliaeth castell Cricieth. Tua 1380 y canodd Iolo Goch ei gywydd adnabyddus i Syr Hywel sy'n sôn amdano'n rhoi 'ffrwyn ym mhen brenin Ffrainc'. Os oes coel ar eiriau Syr John Wynn, yr oedd gwerin gwlad sir Gaernarfon ar ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yn dal i sôn am y traddodiad ddarfod i Syr Hywel gipio brenin Ffrainc yn garcharor ym mrwydr Poitiers yn 1356, 'grounding', meddai Syr John, 'upon the songs made to him in those days, which say that he bridled the French King . . .'<sup>24</sup>

Er y byddai'n ffôl peidio â bod yn eithriadol o ochelgar wrth ddarllen y pytiau o gofnodion amrywiol tebyg i'r un am Ieuan Gethin a geir yn yr *Iolo Manuscripts*, mae'n anodd eu hanwybyddu'n llwyr. Gellir dweud bod dull Iolo o gyfleu'r hanesion mor lliwgar a byw yn nodweddiadol o'r dull o gofnodi hanes yn gyffredinol yn y ddeunawfed ganrif a chyn hynny. Mae J. Gwynfor Jones, er enghraifft, wrth drafod hanes Gwylliaid Cochion Mawddwy, yn dweud mai Thomas Pennant yn saithdegau'r ddeunawfed ganrif oedd y cyntaf i gyfeirio at fanylion llofruddiaeth y Barwn Lewys ab Owain dros ddwy ganrif yn gynharach, ac iddo wneud hynny ar sail traddodiad llafar gwlad. Cyfaddefa J. Gwynfor Jones y gall traddodiadau o'r fath gyfrannu llawer at astudiaeth academiaidd o hanes Cymru.<sup>25</sup>

Tasg anodd yw nithio'r gwir oddi wrth y gau yn amryw o'r hanesion a geir yn yr *Iolo Manuscripts*. Gwyddom yn rhy dda nad oedd Iolo'n

dweud y cyfiawn wir bob amser, am ei fod yn rhy chwannog o lawer i ymyrryd â'r deunydd a oedd dan ei ddwylo. Nid oedd dim diwedd, mae'n ymddangos, ar ei ddyfeisgarwch. Serch hynny, byddai'n werth inni gofio geiriau Griffith John Williams pan ddywedodd fod '... rhyw elfen fechan o wirionedd yn ei holl ffugiadau . . .'26 Credaf fod yr hanesyn hwn am Ieuan Gethin ab Ieuan ap Lleision yn cadarnhau hynny.

BLEDDYN OWEN HUWS  
*Aberystwyth*

### *Nodiadau*

- 1 Gw. Thomas Roberts, *Cwyn yn Erbyn Gorthrymder* (argraffiad newydd, Caerdydd, 1928), t.22.
- 2 R. T. Jenkins, *Cupanaid o De a Diferion Eraill* (Dinbych, 1997), t.79.
- 3 Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987), tt. 16-17.
- 4 Taliesin Williams (gol.), *Iolo Manuscripts* (ail argraffiad, Liverpool, 1888), t.199.
- 5 G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1949), tt. 24-5.
- 6 Gw. Nest Scourfield, 'Gwaith Ieuan Gethin ac Eraill' (Traethawd M.Phil. Prifysgol Cymru, 1993), rhif 4.
- 7 *Ibid.*, rhif 11, llinellau 53-4; 57-8.
- 8 *Calendar of Patent Rolls*, Henry IV 1408-13 (London, 1909), t.216.
- 9 Gw. *Traddodiad Llenyddol Morgannwg*, t.26.
- 10 Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru 13160A, t.277.
- 11 Gw. Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru 13131A, t.117.
- 12 Gw. Bleddyn Owen Huws, 'Dyddiadau Ieuan Gethin', *Llên Cymru*, 20 (1997), tt. 46-55.
- 13 Gw. G. J. Williams, *Iolo Morganwg – Y Gyfrol Gyntaf* (Caerdydd, 1956), t.34.
- 14 Barbara A. Hanawalt, *The Ties That Bound: Peasant Families in Medieval England* (New York, 1986), t.229.
- 15 Gw. P. C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300-1400* (Cardiff, 1974), iii, t.547.
- 16 Gw. A. D. Carr, 'Rhai Beirdd ym Môn', *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, xxviii (1978-80), t.599. Ar y cywyddwyr a fu'n canu i Owain Glyndŵr, gw. Gruffydd Aled Williams, *Owain y Beirdd* (Aberystwyth, 1998), tt. 3-13.
- 17 *Calendar of Patent Rolls*, Henry IV 1405-8 (London, 1907), t.320.
- 18 Gw. A. D. Carr, *Medieval Anglesey* (Llangefni, 1982), t.322.
- 19 Glyn Roberts, 'The Anglesey Submissions of 1406', *Bwletin y Bwrdd Gwybodaau Celtaidd*, xv (1952-4), t.54.
- 20 Gw. Llawysgrif Llyfrgell Genedlaethol Cymru 13140A, t.271.
- 21 Owen Jones, William Owen ac Edward Williams (gol.), *The Myvyrian Archaeology of Wales* (3 cyfrol, London, 1801-7).

- 
- 22 Gw. Elissa R. Henken, *National Redeemer [:] Owain Glyndŵr in Welsh Tradition* (Cardiff, 1996), t.166.
- 23 Gw. *Iolo Manuscripts*, tt. 97-9.
- 24 J. Gwynfor Jones (gol.), *The History of the Gwydir Family and Memoirs* (Llandysul, 1990), t.55. Ar gywydd Iolo Goch i Syr Hywel, gw. D. R. Johnston (gol.), *Gwaith Iolo Goch* (Caerdydd, 1988), rhif II, a D. J. Bowen, 'Cywydd Iolo Goch i Syr Hywel y Fwyall', *Llên Cymru*, 15 (1987-88), tt. 275-88.
- 25 J. Gwynfor Jones, *Gwyliaid Cochion Mawddwy* (Darlith Glyndŵr, 1994), tt. 3-4.
- 26 *Iolo Morganwg – Y Gyfrol Gyntaf*, t. xxxv.